The Daily

# TABLOID

Dydd Mercher, 02 Medi 2009

## AWSLCP

# Bachgen 10 oed yn cael ei ladd gyda chyllell tra'n chwarae pêl-droed

**Yn gynharach heddiw roedd tri ffrind, deg oed, yn chwarae'n hapus yn Green Park.**

**Yn ogystal â chwarae ar y siglenni a'r ffrâm ddringo roeddent hefyd yn chwarae pêl-droed.**

**Mae'n ymddangos bod dau berson ifanc, tua un ar bymtheg oed, wedi dod i mewn i'r parc a dechrau pryfocio'r plant iau a bygwth dwyn eu pêl.**

**Cymerodd un o'r plant hŷn y bêl a dechrau ei chicio o gwmpas gyda'i ffrind. Mae'n ymddangos bod y mwyaf o'r bechgyn deg oed wedi gweiddi ar y bechgyn hŷn; dyna pryd y tynnodd un ohonynt gyllell o'i boced a thrywanu'r bachgen bach sawl gwaith o flaen pawb.**

**Gwelwyd y digwyddiad gan ŵr oedrannus oedd yn eistedd cryn bellter i ffwrdd a mam ifanc oedd yn gwthio pram heibio'r parc.**

**Wedi'r trywanu diflannodd y bobl ifanc ar unwaith i stad dai gyfagos.**

**Ffoniodd y fam ifanc 999 a chyrhaeddodd y gwasanaethau brys o fewn ychydig funudau. Fodd bynnag, yn anffodus, cyhoeddwyd bod y bachgen ifanc wedi marw yn barod.**

**Mae'r heddlu yn ymchwilio ac yn apelio am ragor o wybodaeth.**

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent